

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 26ain Tachwedd, 2018

PRESENNOL

Cyng. Michael Rayner (Cadeirydd), Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. John Owen, , Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Eifion Williams Cyng. Dylan Jones

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 22ain o Hydref, 2018.

Materion yn codi o'r cofnodion

1) **CEGIN WEN, LLANDDOGED**

Cadarnhaodd y clerc fod Mr Elwyn Williams, Tyn Gwern Isaf, Llanddaged wedi cael cadarnhad gan y Cyngor Cymuned i atgyweirio yng Nghegin Wen, Llanddaged a nodwyd ei fod heb gychwyn ar y gwaith eto.

CYLLID

Trafodwyd sefyllfa'r cyllid ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Nodwyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r sefyllfa gyllidol am y flwyddyn 2018/19. Nodwyd hefyd fod y Cyngor yn cadw arian wrth gefn ar gyfer materion cynnal a chadw sydd wedi codi yn ddiweddar yn ardal Llanddaged a Maenan. Hefyd mi fydd yr arian wrth gefn yn cael cadw ar gyfer materion etholiadau a all godi yn ystod y flwyddyn.

Arwyddodd y Cadeirydd y ffurflen mantolen banc ar gyfer flwyddyn ariannol 2018.

CYNLLUNIO:

- 1) Cais rhif 0/45725 - Mr David Thorley, Maenan Abbey Caravan Park, Maenan, Llanrwst LL26 0UI
Amnewid yr offer trin carthion presennol.

Trafodwyd y cais uchod a pasiwyd a phernderfynwyd fod dim gwrthwynebiad.

COEDEN NADOLIG AR GYFER Y PENTREF

Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen a Cyng. Michael Rayner wedi cysylltu gyda Mr Gareth Jones, Maes Gwyn, Llanddaged i wneud trefniadau ar gyfer cael Coeden Nadolig ar gyfer pentref Llanddaged.

AWDIT Y WARD

Yn dilyn y cyfarfod o awdit y ward ar y 10fed o Hydref wrth Ysgol Gynradd Llanddaged gyda swyddogion y sir Trafodwyd y canlynol:-

- Parcio gyferbyn a'r ysgol - y ddwy ochr i'r ffordd - Trafodaeth wedi ei godi ynglŷn ar mater yma. Pryder fod gwasanaethau brys ddim yn gallu cael ffordd yn glir.
- Cyflwr gwyneb y ffyrdd o amgylch y ward - yn enwedig Ffordd Llanddaged – Cyngor yn addawol fydd y gwaith yma yn cael ei gwblhau yn fuan.
- Arwydd Ffordd Trwyn Swch - wedi ei basio i'r Adran Briffyrdd – mater yma wedi cael ei basio ymlaen i'r Adran Priffyrdd.
- Golau stryd wrth Cae Cetyn - angen torri'r canghennau – gwaith yma wedi cael ei gwblhau.
- Cae Cetyn - Angen tacluso'r tyfiant rhwng y ffens a Maes yr Awel - Y sir wedi tacluso'r tyfiant wrth Maes Mawr ond heb dacluso wrth Maes Awel.
- Y Sir i glirio 2 hen fariau gol sydd wedi bod yng Nghae Cetyn ers blynyddoedd – gwaith yma wedi ei

gwblhau.

- Ty'n Celyn dwr yn llifo i'r ffordd – Y Sir yn ymwybodol o'r mater yma.
- Cae Cetyn - Japanese Knot Weed - Elwyn Williams yn dweud bod y Sir yn rhoi rhywbeth arno yn flynyddol - Cadarnhawyd fod y Sir wedi bod yn chwistrellu'r Japanese Knot Weed yng Nghae Cetyn.
- Gofynnwyd a oes posib cael mwy o offer i blant yng Nghae Cetyn - mater yma wedi cael ei gyfeirio at y Sir.
- Biniau Halen - yn sicrhau bydd y biniau yn cael eu llenwi cyn y gaeaf - angen atgoffa'r Sir iddynt llenwi'r biniau halen o gwmpas yr ardal.

Y BONT YM MHONT Y GARTH, MAENAN

Derbyniwyd e-bost gan Mr Bryn Shiland o'r sir gyda gwybodaeth ganlynol:-

Cynhaliwyd yr efelychiad gan ddefnyddio cerbyd ailgylchu mawr 10.57m o hyd gyda chlo 41.8. Gall y cerbyd a asesir pasio'r cyfyngiadau ffisegol, fodd bynnag, mae'n dynn iawn. Mae traffig wedi cynnig y canlynol: -

- Cyfyngiad pwysau amgylcheddol yn 7.5T
- Lled cyfyngiad
- Arwyddion ychwanegol ar gyfer llwybrau eraill

Mae'r Opsiynau uchod yn gymharol syml o symud ymlaen os hoffai'r gymuned CBSC i ymchwilio i'r Opsiynau hyn. Hefyd, bydd Mr Shiland yn rhaglennu asesiad strwythurol o'r bont ym mis Ionawr, os bydd newid yn orfodol ar gyfer pob cerbyd sy'n fwy na'r capiaist bwysau diwygiedig (os o gwbl).

Trafodwyd y wybodaeth a phasiwyd i anfon sylwadau i'r sir i ganolbwyntio fwy ar edrych ar yr efelychiad nac yn hytrach na phwysau'r cerbydau. Nodwyd fod perchennog y tir yn hapus fod y Cyngor yn gwneud fwy o efelychiad. Nid oedd y Cyngor yn gweld fod ychwanegu arwyddion ychwanegol yn fantais.

GOHEBIAETH

- 1) Llythyr gan y Cynulliad -
- 2) E-bost gan yr adran bontydd ynglyn a sefyllfa Pont y Garth Maenan.

CYNNAL A CHADW

- 1) Angen llenwi bocsys halen o gwmpas yr ardal.
- 2) Angen torri mynedfa wrth fynedfa i'r ffordd A470 wrth Bryn Rhydd, Maenan.
- 3) Polyn cyflymder 30 mya wedi dod i lawr ar allt Pen Llan Llanddoged.
- 4) Angen tarmacio tyllau yn y ffordd tu allan i Ysgol Gynradd, Llanddoged.
- 5) Angen tarmacio ffordd Llanddoged.
- 6) Angen llenwi'r twll yn y ffordd wrth Maes Bach, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
- 7) Ffordd i fyny o'r Abbey angen ei tharmacio.
- 8) Angen llenwi'r twll yn y tro yn y ffordd Llanddoged wrth Cae Brychiad Llanddoged .

CYLLID

Taliadau

- 1) Swyddfa Archwiliad Crymu – anfonneb am yr arhwiliad cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn sydd yn diweddu 31ain Mawrth, 2018 - £322-40
- 2) HMC - Tal am dreth gyflog y clerc - £125